Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

04 Chwefror 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

04 Chwefror 2019

**Awduron:**
Nigel Barwise, Gethin Davies, Manon George, Peter Hill a Gareth Thomas

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....1**

Crynodeb o'r datblygiadau ....1

**2. Datblygiadau yn San Steffan a Brwsel ....4**

Llinell amser y datblygiadau allweddol....4

Yr ymateb i'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Ionawr, a'r camau nesaf ....6

Deddfwriaeth Brexit....8

**3. Datblygiadau yng Nghymru....11**

Pa mor barod yw Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit 'dim bargen'?....11

Dadl ar adroddiadau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar baratoi ar gyfer Brexit....15

Dadl Llywodraeth Cymru ar 30 Ionawr....16

**4. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ....18**

Parodrwydd ar gyfer Brexit....18

Cytuniadau rhyngwladol....19

Brexit: y camau nesaf....20

**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 19 Ionawr 2019.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb bras o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad manwl o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel;
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf; a
- Dadansoddiad o'r materion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

## Crynodeb o'r datblygiadau

- Yn dilyn y bleidlais yn erbyn cytundeb Brexit Prif Weinidog y DU yn Nhŷ'r Cyffredin, gwnaeth **ddatganiad ar 21 Ionawr yn nodi ei chamau nesaf**.
- Yn dilyn cyfarfod Prif Weinidog y DU ar **21 Ionawr â Phrif Weinidog Seland Newydd, Jacinda Ardern**, dywedodd llefarydd ar ran 10 Downing Street fod y ddau arweinydd wedi ailddatgan eu hawydd ill dau i greu cytundeb masnach rydd uchelgeisiol a safonol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
- Ar 22 Ionawr, canslodd Llywodraeth Cymru ei busnes ar gyfer y Cyfarfod Llawn am y diwrnod, ac yn ei le cafwyd **cyfres o ddatganiadau** gan Weinidogion ar effaith Brexit 'dim bargen' ar eu portffolios a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer senario o'r fath.
- Ar 28 Ionawr, ymwelodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin â Phorthladd Caergybi i ystyried **effaith gwahanol senarios Brexit i fasnach**. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor na ddylid tanbrisio pa mor bwysig yw porthladdoedd Cymru i fasnach y DU.
- Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd y Pwyllgor Ymadael â'r UE ei adroddiad terfynol, **Response to the vote on the Withdrawal Agreement and Political Declaration: Assessing the Options**.
- Ar 28 Ionawr, amlinellodd Llywodraeth y DU y **trefniadau ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n dymuno ymweld ac aros yn y DU** mewn senario 'dim bargen'.

- Ar 29 Ionawr, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin, ac roedd dadl i ddilyn**. Yn dilyn pleidleisiau ar welliannau i'r cynnig a osodwyd gan y Prif Weinidog, fe wnaeth y Tŷ wrthod ymadawiad y DU â'r UE heb Gytundeb Ymadael a Fframwaith ar gyfer Perthynas yn y Dyfodol, ac fe'i gwnaed yn ofynnol i'r ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon gael ei ddisodli gan drefniadau gwahanol er mwyn osgoi ffin galed. Datganodd y Tŷ hefyd ei fod yn cefnogi ymadael â'r UE gyda chytundeb, ac felly byddai'n cefnogi'r Cytundeb Ymadael yn amodol ar newid amodau'r ateb wrth gefn. Dywedodd Prif Weinidog y DU y bydd y Llywodraeth yn gofyn am newidiadau sy'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol yn y Cytundeb Ymadael sy'n mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch yr ateb wrth gefn, gan warantu na fydd ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.
- Hefyd ar 29 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon ei **hasesiad cychwynnol o effaith economaidd a chyllidol senario Brexit 'dim bargen',** a chyhoeddodd **ddatganiad ar ganlyniad pleidleisiau San Steffan**.
- Yn Senedd Ewrop ar 30 Ionawr, **siaradodd y Llywydd Juncker a Michel Barnier am bleidlais Tŷ'r Cyffredin**, gan ddweud: "The backstop is part and parcel of the Withdrawal Agreement and it will not be renegotiated"; recalled that the EU27 governments and the UK government agreed the Withdrawal Agreement (including the Backstop) in November; and finished saying that "the EU is ready … to be more ambitious and to rework the nature and intensity of our future economic relationship".
- Roedd crynodeb Senedd Ewrop o'r ddadl ar 30 Ionawr, '**MEPs urge UK to break current deadlock**', yn datgan: "The majority of MEPs who took the floor underlined the EU's need to continue preparing for a no-deal scenario and made clear that the backstop was needed to ensure that there is no return to a hard border in Ireland, to secure peace and stability and to preserve the integrity of the single market".





- Hefyd ar 30 Ionawr, cynhaliodd y Cynulliad **ddadl** ar y rhagolygon am Gytundeb Brexit yn dilyn y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd y cynnig a gafodd ei basio yn datgan bod y Cynulliad yn condemnio Llywodraeth y DU am ei methiant i gynnal trafodaethau ystyrlon â'r pleidiau eraill ynghylch y Cytundeb Ymadael â'r UE, ac o ran y trafodaethau ystyrlon â'r sefydliadau datganoledig. Ailddatganwyd barn y Cynulliad y byddai Brexit 'dim bargen' yn drychinebus i Gymru, a'i gred y dylid gwneud popeth posibl i atal hyn gan gynnwys ymestyn cyfnod Erthygl 50 os oes angen. Nodwyd bod y Cynulliad yn credu y dylid dechrau paratoi ar gyfer pleidlais y bobl os na ellir sicrhau bargen sy'n cynnwys parhau i gyfrannu yn y farchnad sengl a'r undeb tollau. Nodwyd hefyd gred y Cynulliad y dylai Senedd y DU wneud mwy o ymdrech i drafod â'r deddfwrfeydd datganoledig ynghylch y materion hyn, a hynny ar unwaith.
- Ar 4 Chwefror, fe wnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yng Ngogledd Iwerddon. Dywedodd y byddai Llywodraeth y DU yn sicrhau cytundeb sy'n anrhydeddu ei ymrwymiadau i Ogledd Iwerddon ac sy'n ennyn cefnogaeth eang ar draws Gogledd Iwerddon.

# 2. Datblygiadau yn San Steffan a Brwsel

## Llinell amser y datblygiadau allweddol

Ar ôl i fargen Brexit Prif Weinidog y DU gael ei gwrthod yn y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Ionawr, gwnaeth Theresa May ddatganiad ar 21 Ionawr yn nodi ei chamau nesaf. Soniodd am chwe phrif fater sydd wedi bod wrth wraidd ei thrafodaethau â phleidiau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymadael heb fargen;
- cynnal ail refferendwm;
- yr ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon;
- y manylder ynghylch y berthynas yn y dyfodol yn y datganiad gwleidyddol;
- cynnal safonau cymdeithasol ac amgylcheddol, a hawliau gweithwyr; a
- statws dinasyddion yr UE yn y DU a dinasyddion y DU yn yr UE.

O ran cynnal trafodaethau â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dywedodd Prif Weinidog y DU:

> While it will always be for Her Majesty's Government to negotiate for the whole of the UK, we are also committed to giving the devolved Administrations an enhanced role in the next phase, respecting their competence and vital interests in these negotiations.

Ar 23 Ionawr, cyfarfu Prif Weinidog y DU â Phrif Weinidog Cymru. Yn ystod y cyfarfod, **anogodd** Mark Drakeford Brif Weinidog y DU i 'fod yn hyblyg, dileu'r posibilrwydd o senario 'dim bargen', ac ymestyn cyfnod Erthygl 50'. At hynny, dywedodd **llefarydd ar ran Llywodraeth y DU** y gwahoddwyd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban i fynychu cyfarfodydd is-bwyllgor newydd y Cabinet a fydd yn trafod y gwaith ar baratoadau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, gan drafod senario ymadael â bargen a senario ymadael heb fargen fel ei gilydd.

Yn dilyn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, ailddatganodd **Grŵp Llywio Brexit Senedd Ewrop**:

> [...] the Withdrawal Agreement is fair and cannot be re-negotiated. This applies especially to the backstop, since it is the guarantee that under no circumstances will there be a hardening of the border on the island of Ireland while at the same time safeguarding the integrity of the Single Market. The EU remains clear, firm and united on this even if the negotiated backstop is not meant to be used.





Fel sy'n ofynnol gan adran 13(6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, cyflwynodd y Prif Weinidog gynnig y gellid cyflwyno gwelliannau iddo ar 21 Ionawr yn amlinellu ei chamau nesaf. Dewisodd John Bercow, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, saith o'r gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl ar 29 Ionawr 2019. Roedd y gwelliannau fel a ganlyn (yn y drefn bleidleisio):

- **Gwelliant (a) - wedi ei gynnig gan Jeremy Corbyn (Arweinydd yr Wrthblaid)** – ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidogion sicrhau bod digon o amser i Senedd y DU ystyried a phleidleisio ar opsiynau i atal y DU rhag ymadael â'r UE heb gadarnhau Cytundeb Ymadael a Datganiad Gwleidyddol, ac y dylai'r opsiynau hynny gynnwys newidiadau negodi gan gynnwys undeb tollau barhaol o fewn yr UE; aliniad cyfredol â hawliau gweithwyr; perthynas gryf â'r farchnad sengl; a deddfu i gynnal pleidlais y bobl ar fargen neu gynnig sy'n gofyn am gefnogaeth Tŷ'r Cyffredin. **Gwrthodwyd y gwelliant o 327 i 296**.
- **Gwelliant (o) - wedi ei gynnig gan Ian Blackford (Arweinydd Grŵp Plaid Genedlaethol yr Alban yn San Steffan)** - nodi bod Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Thŷ'r Cyffredin oll wedi pleidleisio i raddau helaeth iawn i wrthod bargen Prif Weinidog y DU; yn galw i Lywodraeth y DU geisio ymestyn cyfnod Erthygl 50; yn cytuno y dylid dileu'r posibilrwydd o gael senario 'dim bargen'; ac yn cydnabod, os yw'r DU yn bartneriaeth gyfartal o genhedloedd, na ddylai pobl yr Alban orfod ymadael â'r UE yn erbyn eu hewyllys. **Gwrthodwyd y gwelliant o 327 i 39.**
- **Gwelliant (g) - wedi ei gynnig gan Dominic Grieve** - caniatáu i Dŷ'r Cyffredin arwain y trafodaethau ynghylch ystod o ddewisiadau gwahanol i'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ar chwe diwrnod cyn diwedd Mawrth 2019. Wedyn, byddai pleidlais ddangosol yn cael ei chynnal ar y dewisiadau gwahanol hyn. **Gwrthodwyd y gwelliant o 321 i 301.**
- **Gwelliant (b) - wedi ei gynnig gan Yvette Cooper** - amcanu i ddileu'r posibilrwydd o senario 'dim bargen' drwy roi amser i Dŷ'r Cyffredin basio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 3). Byddai'r Bil hwn wedi ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU geisio gohirio'r diwrnod y mae'r DU yn ymadael â'r UE os na chytunir yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol erbyn 26 Chwefror. Byddai hyn wedi golygu gofyn i ymestyn cyfnod Erthygl 50 tan 31 Rhagfyr 2019. **Gwrthodwyd y gwelliant o 321 i 298.**
- **Gwelliant (j) – wedi ei gynnig gan Rachel Reeves** - ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU geisio gohirio'r diwrnod y mae'r DU yn ymadael â'r UE os na chytunir yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol erbyn 26 Chwefror. **Gwrthodwyd y gwelliant o 322 i 290.**

- **Gwelliant (i) - wedi ei gynnig gan y Fonesig Caroline Spelman** - galw i ymwrthod ag ymadawiad y DU â'r UE heb Gytundeb Ymadael a Fframwaith ar gyfer y Perthynas yn y Dyfodol (hynny yw, osgoi senario 'dim bargen'). **Derbyniwyd y gwelliant o 318 i 310.**
- **Gwelliant (n) - wedi ei gynnig gan Syr Graham Brady** - galw i ddisodli'r ateb wrth gefn mewn perthynas â'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon â threfniadau i osgoi ffin galed. Galw i gefnogi ymadael â'r UE gyda bargen, a thrwy hynny gefnogi'r Cytundeb Ymadael yn amodol ar ei newid. **Derbyniwyd y gwelliant o 317 i 301.**

Cynhaliodd Senedd Ewrop ddadl ar y sefyllfa bresennol o ran ymadawiad y DU â'r UE, dan arweiniad Jean-Claude Juncker (Llywydd Comisiwn yr UE) a Michel Barnier (Prif Negodwr Brexit yr UE27) ar 30 Ionawr.

## Yr ymateb i'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Ionawr, a'r camau nesaf

Yn dilyn y bleidlais ar 29 Ionawr, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin**. Dywedodd fod mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin wedi datgan y byddai'n cefnogi bargen pe gwneir newidiadau i'r ateb wrth gefn o ran y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y byddai'n cyflwyno newidiadau mewn perthynas â hawliau gweithwyr, ac y byddai'n ymdrechu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch gwaith craffu seneddol ar y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Dywedodd y byddai'n ceisio ailnegodi'r Cytundeb Ymadael â'r UE er mwyn cael newidiadau sy'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol a fyddai'n lleddfu'r pryderon ynghylch yr ateb wrth gefn. Meddai hefyd ei bod yn cytuno na ddylai'r DU ymadael heb fargen, ond dywedodd nad yw gwrthwynebu senario 'dim bargen' yn ddigon i atal hynny rhag digwydd.

Yn ystod dadl Senedd Ewrop ar 30 Ionawr, dywedodd Jean-Claude Juncker fod y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Ionawr wedi cynyddu'r risg o gael Brexit 'heb fargen', ond meddai ei fod yn credu y bydd cytundeb i'w gael. Cadarnhaodd na fydd yr UE yn ailnegodi'r Cytundeb Ymadael, ac na fydd y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin yn newid hynny. Dywedodd nad oes gan yr UE unrhyw fwriad o ddefnyddio'r ateb wrth gefn, ond mai mesur diogelwch ydyw gan fod ffin Iwerddon hefyd yn ffin i'r UE.





Ailadroddodd Michel Barnier na chaiff y Cytundeb Ymadael ei ailnegodi, ac yn yr un modd â Juncker dywedodd mai'r Cytundeb presennol yw'r un gorau a'r unig ffordd i sicrhau bod y DU yn ymadael â'r UE yn drefnus. Dywedodd hefyd fod yr 'ateb wrth gefn' yn angenrheidiol a'i fod yn rhan o'r datrysiad i'r mater â ffin Gogledd Iwerddon.

Hefyd, yn ystod y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin **ar 29 Ionawr,** cyhoeddodd Prif Weinidog y DU y byddai'n gwneud datganiad ac yn gosod cynnig y gellid cyflwyno gwelliannau iddo erbyn 15 Chwefror os nad oedd bargen wedi ei chytuno erbyn hynny.

Yn y ddadl honno hefyd, ymrwymodd y Prif Weinidog i fynd drwy'r cynigion a elwir '**the Malthouse Compromise**'. Cafwyd sylw i'r cynigion hyn yn y cyfryngau dros y dyddiau diwethaf, ond mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn nodi bod manylion y cynllun yn aneglur ar hyn o bryd gan nad yw wedi ei gyhoeddi'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r Llyfrgell wedi llunio blog sy'n nodi cymaint o fanylion ag a wyddys ynghylch 'Cynllun A' a 'Cynllun B'.

Roedd 'Cynllun A' yn cyfeirio at y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Diben y cynllun yw disodli'r ateb wrth gefn gydag ateb arall a fyddai'n dod i ben ymhen amser ac a fyddai'n osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon drwy greu cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE, gweithredu system cyd-gydnabyddiaeth o safonau, prosesau hwyluso tollau, ac addewid i beidio creu seilwaith ar y ffin gan y câi technoleg ei defnyddio i gynnal gwiriadau ar y ffin. Byddai'r cyfnod pontio hefyd yn hwy, ac yn para tan fis Rhagfyr 2021.

Roedd 'Cynllun B' yn cynnwys cynigion ar gyfer senario 'dim bargen' wedi'i reoli os nad yw 'Cynllun A' yn digwydd. O dan 'Cynllun B', byddai'r DU yn gofyn i'r UE gadw at y Cytundeb Ymadael ond heb yr ateb wrth gefn, gan addo talu'r cyfraniadau ariannol sydd eu hangen am gyfnod pontio hyd at fis Rhagfyr 2021.

## Deddfwriaeth Brexit

Hyd yma, y tymor hwn mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi bod yn canolbwyntio ar y **Bil Pysgodfeydd**. Mae'r Bil yn darparu nifer o bwerau a fydd yn galluogi'r DU a Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru. Cafodd **cynnig cydsyniad deddfwriaethol** mewn perthynas â'r Bil ei osod gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd, a gosodwyd **cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol** ar 10 Ionawr. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn credu ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU i sicrhau bod dull cyson ar draws y DU wrth greu'r fframwaith pysgodfeydd. Er hynny, dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Ar 16 Ionawr, clywodd y Pwyllgor NHAMG dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch y cynigion cydsyniad deddfwriaethol, a chlywodd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 24 Ionawr. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd wedi ystyried y Bil a bydd y ddau bwyllgor yn cyflwyno adroddiad arno erbyn y dyddiad cau ar 12 Chwefror. Mae Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin wedi dod i ben, ond nid yw'r dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd wedi ei gyhoeddi eto.

Daeth cyfnodau'r Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 21 Ionawr. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ariannu a threfnu gofal iechyd y tu allan i'r DU a rhoi cytundebau gofal iechyd cyfatebol ar waith rhwng y DU a gwledydd eraill. Yn y Cyfnod Adrodd, gwrthododd Tŷ'r Cyffredin nifer o gymalau a chytunodd i Drydydd Darlleniad y Bil heb gyfnod pleidleisio. Mae'r Bil bellach wedi'i basio i Dŷ'r Arglwyddi i'w ystyried. Yn y Cynulliad, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 15 Tachwedd. Yn y memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod trigolion yn gallu parhau i elwa ar drefniadau gofal iechyd cyfatebol, ond mae hefyd yn codi pryderon ynghylch y graddau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at lunio'r trefniadau hynny. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol adroddiadau ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 22 Ionawr Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r Gweinidog, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, geisio gwneud gwelliant i'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer swyddogaethau mewn meysydd datganoledig. Roedd **y pwyllgor iechyd** hefyd yn rhannu'r un pryderon ynghylch y diffyg darpariaeth i geisio gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau, ac felly roedd yn cefnogi penderfyniad y Gweinidog i beidio argymell y dylid cydsynio tan y câi gwelliannau eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Cyrhaeddodd **y Bil Masnach** ei Gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Ionawr. Yn ystod y ddadl, trafododd yr Aelodau Seneddol effaith y Bil ar waith caffael y Llywodraeth a gweithrediad cytundebau masnach rhyngwladol. Roedd un bleidlais ynghylch gwelliant a gynigiwyd a oedd yn gosod amod ar y Bil os oedd am fynd yn ei flaen i'r Cyfnod Adrodd. **Cynigiodd y Farwnes Smith o Basildon** welliant yn nodi na chaiff adroddiad y Pwyllgor ei gyflwyno tan i'r Llywodraeth gyflwyno cynigion i'r ddau Dŷ ar gyfer proses i wneud cytundebau masnach rhyngwladol unwaith y bydd y DU mewn sefyllfa i wneud hynny yn annibynnol ar yr UE, gan gynnwys rolau Senedd y DU a'r deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â negodi mandad a cheisio cytundeb terfynol. Cafodd y gwelliant ei basio, gan olygu y bydd y Bil yn cwblhau ei gyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ond na fydd yn mynd ymlaen i'r Cyfnod Adrodd tan y ceir cynigion y Llywodraeth.

Cynhaliwyd Ail Ddarlleniad y **Bil Cydgysylltu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE)** ar 28 Ionawr. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y Bil yn y cyfnod hwn, ond wedi hynny, gwnaeth y Bil basio ei Ail Ddarlleniad heb bleidlais a bydd nawr yn mynd ymlaen i'r Cyfnod Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn trafod y Bil, a disgwylir adroddiad ganddo erbyn 7 Mawrth 2019. Diben y Bil yw i roi terfyn ar symudiad rhydd a gwarchod statws dinasyddion Iwerddon yng nghyfraith fewnfudo'r DU. Ym marn Llywodraeth y DU, nid yw'r materion mewnfudo y mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

O ran **is-ddeddfwriaeth**, mae 350 o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi'u gosod yn Senedd y DU ers i Ddeddf yr UE (Ymadael) gael Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, ac mae 108 Offeryn Statudol wedi cwblhau eu hynt drwy'r Senedd. O ran y rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, mae 15 **offeryn negyddol arfaethedig** wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac mae'r Pwyllgor wedi cynnig y dylai **un OS fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol** yn hytrach na'r weithdrefn negyddol.

Mae Rheol Sefydlog 30C yn y Cynulliad bellach yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig yn hysbysu'r Cynulliad o reoliadau pan wneir rheoliadau gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) mewn maes datganoledig. Pan fo'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi **gosod datganiadau ysgrifenedig** sy'n ymwneud ag 81 o reoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig, **ynghyd ag 16 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol**.

Ar 25 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** o dan Reol Sefydlog 30C ar Reoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019. Yn y datganiad, mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn pwysleisio, er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymorth gwladwriaethol wedi ei ddatganoli, nid yw Llywodraeth y DU yn credu hynny. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru yn unol â thelerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Mae'r datganiad hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gael rôl ystyrlon yn y gyfundrefn cymorth gwladwriaethol yn y dyfodol, fodd bynnag nid yw'r Rheoliadau sydd wedi cael eu gosod yn darparu ar gyfer hyn. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rheoliadau'n cyflawni amcanion polisi trosfwaol Gweinidog Cymru o ennyn hyder partneriaid yr UE a chynnal yr hyder hwnnw, gan hwyluso aliniad cyfredol â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE a galluogi aliniad effeithiol ar draws y DU.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 3. Datblygiadau yng Nghymru

## Pa mor barod yw Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit 'dim bargen'?

Ar 22 Ionawr, aildrefnodd Llywodraeth Cymru fusnes y Cyfarfod Llawn yn dilyn y 'bleidlais ystyrlon' yr wythnos cyn hynny, ac yn lle'r eitemau ar yr agenda cafwyd cyfres o ddatganiadau ar effeithiau senario 'dim bargen' ar bortffolios y Gweinidogion a'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i liniaru'r rhain cyn belled ag y bo modd.

Gwnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford AC, **ddatganiad** gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Brexit. Dywedodd y dylai Llywodraeth y DU ymrwymo i ddiystyru senario 'dim bargen':

> The truth is that nobody really knows what will happen in the event of a 'no deal' Brexit. It follows that neither Wales nor the United Kingdom as a whole can be truly prepared for all the possible eventualities. This Welsh Government will do everything we can and use every opportunity to join with others to persuade the Prime Minister to turn away from this disastrous course, to halt the damage it would cause to our country, and to find a better way forward.

Galwodd Prif Weinidog Cymru hefyd i Lywodraeth y DU ymestyn Erthygl 50 unwaith iddi ymrwymo i ddiystyru senario 'dim bargen'. Dywedodd y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bargen a gefnogir gan Dŷ'r Cyffredin, sydd wedi'i seilio ar barhau'n rhan o'r farchnad sengl ac undebau tollau. Os na ellir gwneud hyn, dywedodd y byddai Brexit 'dim bargen' mor ddifrifol mai'r unig ffordd o ddatrys yr anghytundeb fyddai drwy gynnal pleidlais gyhoeddus.

Mewn ymateb i gwestiwn am oblygiadau cyfansoddiadol Brexit, dywedodd y Prif Weinidog fod nifer o bwyllgorau yn y Cynulliad ac mewn mannau eraill wedi datgan nad yw'r trefniadau rhynglywodraethol sydd gennym yn y DU ar hyn yn ddigon cryf i ymdopi â baich Brexit. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru ar flaen y gad o ran yr ymdrechion i wella'r trefniadau hyn. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd fod y Cydbwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) wrthi'n gweithio ar adolygiad o'r rhain. Dywedodd ei bod yn "anodd perswadio Llywodraeth y DU i ddod o hyd i'r egni, yr amser a'r ymrwymiad i wneud i'r pethau pwysig iawn hyn ddigwydd".

Gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, **ddatganiad** ar effaith Brexit 'dim bargen' ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Yn ei ddatganiad, mynegodd y Gweinidog bryderon am gyflenwi radioisotopau i Gymru yn y dyfodol pe bai senario 'dim bargen' gan fod y cyflenwadau'n cael eu mewnforio o'r UE. Dywedodd hefyd y byddai Brexit 'dim bargen', gan gynnwys newidiadau i bolisi mudo, yn arwain at "farchnad lafur dynnach o ran iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU" a fyddai, o ganlyniad, yn effeithio ar wasanaethau.

O ran y gwaith y mae ei adran wedi bod yn ei wneud i liniaru effaith Brexit 'dim bargen', dywedodd y Gweinidog:

> Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r GIG, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol a chynrychioliadol i gynllunio a pharatoi lle bo hynny'n bosib.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys comisiynu ymchwil i asesu cyfansoddiad y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru er mwyn nodi faint o weithwyr yr UE sy'n cael eu cyflogi yn y sector. O ran diogelu'r cyflenwad meddyginiaethau, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y gwaith a wneir gan Lywodraeth y DU a'r diwydiant fferyllol "i sicrhau bod stoc a llwybrau trafnidiaeth pwrpasol ar gael".

Wrth ateb cwestiwn am drefniadau gofal iechyd cyfatebol mewn senario 'dim bargen', dywedodd y Gweinidog nad yw mewn sefyllfa ar hyn o bryd i argymell y dylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad i Fil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) y DU, gan fod y pwerau a ddirprwyir i Weinidogion y DU o dan y Bil "ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol" i sicrhau bod y trefniadau cyfatebol yn parhau.

Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, **ddatganiad** ar effaith Brexit 'dim bargen' ar drafnidiaeth. Yn ei ddatganiad, tynnodd y Gweinidog sylw at effaith y sefyllfa hon ar borthladdoedd, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau ffiniau, tollau ac archwiliadau diogelwch.

Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi paratoi asesiad o'r sefyllfa 'waethaf bosibl' ar gyfer pob porthladd ledled y DU. Mae'r gwaith modelu perthnasol yn dangos ei bod yn debygol y gellid cadw unrhyw draffig sy'n cael ei ddal yn ôl yng Nghaergybi o fewn i gyffiniau'r porthladd a byddai'n annhebygol o orlifo i'r A55. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer lliniaru gorlif traffig os bydd hyn yn digwydd:



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

> Cafodd safleoedd posibl ar Ynys Môn eu nodi a'u hasesu, gan gynnwys y cyfleuster aros ar gyfer tryciau Roadking sydd yno'n barod. Mae fy swyddogion i wedi cwrdd â Roadking i drafod y defnydd o'r safle penodol hwn. Mae'n safle da yn ddaearyddol, ni cheir unrhyw faterion datblygiadol ac mae seilwaith addas eisoes ar gael. Byddwn yn trafod telerau gyda Roadking nawr, ond nid dyma'r unig ddewis sydd ar gael i ni. Dewis arall yw Parc Cybi. Safle sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru yw hwn, ac mae'n ddigon mawr i ddal 40 o gerbydau nwyddau trwm. A cheir dewis wrth gefn arall hefyd: gellid defnyddio'r A55. Ledled Ynys Môn, mae gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd yn ystod y dydd gyda lonydd yn cael eu cau heb achosi fawr ddim anhwylustod. Gellid defnyddio mesurau tebyg, yn y sefyllfa annhebygol eu bod nhw'n angenrheidiol, er mwyn rheoli'r oedi o ran cludiant nwyddau yn y porthladd.

Atebodd y Gweinidog gwestiwn hefyd am borthladdoedd Abergwaun a Doc Penfro, gan nodi, er na ragwelir risg o broblemau traffig yn y porthladdoedd hyn ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ac eraill i adolygu'n barhaus yr angen am fesurau rhagofalus.

Tynnodd sylw hefyd at y risgiau posibl sy'n wynebu cludwyr ffyrdd, oherwydd y risgiau o ran trwyddedau y byddent yn eu hwynebu pe bai Brexit 'dim bargen'. Dywedodd y Gweinidog fod angen mwy o eglurder ynglŷn â threfniadau yn y dyfodol a beth fyddai goblygiadau unrhyw gyfyngiadau ar drwyddedau, gan gynnwys yr hyn y gallent ei olygu i gludwyr Cymru a'r porthladdoedd a'r busnesau a'r defnyddwyr unigol sy'n dibynnu arnynt.

Galwodd y Gweinidog hefyd am ddatganoli'r doll teithwyr awyr i Gymru fel bod Maes Awyr Caerdydd yn manteisio i'r eithaf arni ar ôl Brexit.

Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig **ddatganiad** ar effaith Brexit 'dim bargen' ar yr amgylchedd, amaethyddiaeth a physgodfeydd. Wrth bwysleisio mai dyma'r ardaloedd sydd fwyaf ynghlwm wrth yr UE drwy'r corff mawr o ddeddfwriaeth ddatganoledig, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ers refferendwm yr UE i adolygu 1,200 darn o ddeddfwriaeth a diwygio 900 darn, i sicrhau bod ganddi lyfr statud sy'n gweithio erbyn y diwrnod ymadael.

Dywedodd fod y Llywodraeth wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y systemau angenrheidiol ar waith i ateb gofynion yr UE o ran trydydd gwledydd. Nododd y Gweinidog, fodd bynnag, fod llawer o hyn wedi'i gyflawni ar y cyd ag adrannau Llywodraeth y DU oherwydd yr amserlenni byrrach ac er mwyn sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer y diwrnod ymadael.

Roedd ei datganiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae swyddogion y Llywodraeth yn ei wneud ar gynllunio brys i ddiogelu cyflenwadau bwyd, cyflenwad ynni di-dor a chyflenwad dŵr. Er bod ei datganiad yn canolbwyntio'n bennaf ar waith y Llywodraeth, gorffennodd drwy ddweud ei bod yn pryderu am y dystiolaeth gan sefydliadau busnes sy'n awgrymu nad oes llawer o fusnesau'n paratoi'n weithredol ar gyfer Brexit eto nac ar gyfer senario 'dim bargen':

> ceir terfyn i'r hyn y gallwn ni wneud o wynebu bygythiad o'r maint hwn. Mae'n rhaid i fusnesau weithredu hefyd, ac yn gyflym, oherwydd ni ellir tanbwysleisio maint yr her.

Gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol **ddatganiad** ar baratoi ein gwasanaethau cyhoeddus at Brexit 'dim bargen', gan gynnwys argyfyngau sifil. Dywedodd fod y Llywodraeth yn gweithio drwy ystod o bartneriaethau ar gyfer cynllunio wrth gefn ynghylch amhariad posibl mewn porthladdoedd, i helpu i sicrhau diogelwch bwyd, ac i gynnal argaeledd meddyginiaethau a chyflenwadau.

Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth i greu seilwaith cryf o gefnogaeth i helpu i nodi'n gyflym y materion sy'n codi i gefnogi penderfyniadau cyflym ac effeithiol gan bawb dan sylw. Ychwanegodd y byddai'r trefniadau hynny yn golygu bod modd cyfathrebu'n gydgysylltiedig â'r cyhoedd a'r cyfryngau ynghylch argyfyngau sifil a gaiff eu rhannu ar draws y sector cyhoeddus.

O ran yr ymateb ar lefel genedlaethol, dywedodd y Gweinidog fod cynlluniau ar waith i Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru weithredu pe bai angen, gyda staff Llywodraeth Cymru yn cael eu galw i gynorthwyo'r tîm cydnerthedd craidd. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am becyn cymorth Grant Thornton i awdurdodau lleol sy'n paratoi ar gyfer Brexit, sy'n rhoi canllaw i awdurdodau ar sut i gynllunio'n effeithiol ar draws ystod o wasanaethau.

Wrth gloi, pwysleisiodd y Gweinidog nad yw gwaith cynllunio'r Llywodraeth ar argyfyngau sifil yn awgrymu mewn unrhyw ffordd ein bod yn disgwyl argyfwng, a'i fod yn hytrach yn dangos awydd y Llywodraeth i weithio'n effeithiol gyda gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid eraill i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer Brexit 'heb fargen' a bod dulliau lliniaru yn eu lle i leihau'r angen am ymateb argyfyngau sifil.

**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** wnaeth y datganiad olaf ar effaith Brexit 'dim bargen' ar Gymru. Yn ei ddatganiad, dywedodd:



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

- Gallai newid i reolau Sefydliad Masnach y Byd yn hytrach na pharhau'n rhan o'r farchnad sengl olygu bod economi'r DU hyd at 8 y cant i 10 y cant yn llai nag y byddai fel arall;
- Gallai incwm pobl fod hyd at £1,500 i £2,000 y pen yn llai mewn senario 'dim bargen', gan effeithio ar safonau byw.
- Byddai cytundeb masnach rydd newydd yn ychwanegu 0.2 y cant at gynnyrch domestig gros, o'i gymharu â'r golled o 8-10 y pe bai llai o fynediad i farchnadoedd Ewropeaidd;
- Bydd colli mynediad at gyllid ymchwil, cydweithredu, rhaglenni cyfnewid a thalent ryngwladol yn niweidio prifysgolion a cholegau, yn "mygu arloesi" ac yn "culhau ein gorwelion".

O ran yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit fod cronfa cydnerthedd busnes newydd yn cael ei defnyddio i roi cymorth ariannol i fusnesau baratoi ar gyfer Brexit. Mae trafodaethau hefyd yn parhau â Banc Datblygu Cymru ynglŷn â sut y gall ymateb i unrhyw broblemau llif arian mewn senario 'dim bargen', gan gynnwys defnyddio'r cronfa fuddsoddi hyblyg sy'n werth £130 miliwn a sefydlwyd yn 2017 mewn ymateb i Brexit.

## Dadl ar adroddiadau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar baratoi ar gyfer Brexit

Ar 29 Ionawr, roedd **dadl yng Nghyfarfod Llawn** y Cynulliad i nodi'r tri adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 ynghylch paratoi ar gyfer Brexit. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar **borthladdoedd, gofal iechyd a meddyginiaethau**, a'r sector **bwyd a diod**.

O ran porthladdoedd, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei gynlluniau wrth gefn ar gyfer rheoli traffig ym mhorthladdoedd Cymru pe bai oedi oherwydd archwiliadau newydd ar ôl Brexit. Yn **ymateb** Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, tynnwyd sylw at sensitifrwydd masnachol o ran cyhoeddi'r opsiynau rheoli traffig sy'n ymwneud â Chaergybi. Wrth ymateb i'r ddadl, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit nad oedd rhai o'r materion cyfrinachedd a oedd yn berthnasol pan luniwyd yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor yn berthnasol mwyach, a bod rhagor o fanylion am hyn wedi'u nodi yn natganiad Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr. Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ynglŷn â'r posibilrwydd o rannu'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

O ran gofal iechyd a meddyginiaethau, mynegwyd pryderon yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch y cyflenwad parhaus o feddyginiaethau, mynediad i dreialon clinigol a chynnal y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth ymateb i'r ddadl, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit:

> Rydym ni wedi bod yn gwneud, ac yn parhau i wneud, popeth a allwn ni i sicrhau bod y sicrwydd y mae Gweinidogion y DU yn ei roi ynghylch gallu'r gofynion byffer a roddir ar gwmnïau fferyllol, y storfeydd ychwanegol a'r llwybrau trafnidiaeth amgen, gan gynnwys llwybrau awyr ar gyfer radioisotopau, yn rhesymol. O ran dyfeisiau meddygol a nwyddau traul, fel yr amlinellodd y Gweinidog iechyd, byddwn yn defnyddio trefniadau'r DU os mai dyna yw'r peth priodol i'w wneud, ond rydym ni eisoes yn cymryd camau ychwanegol, gan gynnwys o ran capasiti storio, lle mae gennym ni feysydd sy'n peri pryder neu lle'r ydym ni'n teimlo y gallwn ni ddarparu sicrwydd ychwanegol yng Nghymru.

Mewn perthynas â'r sector bwyd a diod, roedd adroddiad y Pwyllgor yn mynegi pryderon ynghylch masnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd pe bai Brexit 'dim bargen', a dynodiadau daearyddol ar gyfer bwydydd a warchodir. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod yna gynllun wrth gefn ledled y DU â'r bwriad o gynnal cyflenwad bwyd i'r cyhoedd yn y sefyllfa waethaf bosibl, ac ar ddynodiad daearyddol. Mae hefyd yn gweithio gyda'r sector bwyd a diod i'w gwneud yn bosibl i fusnesau sicrhau eu bod yn barod a deall y goblygiadau ar gyfer eu cadwyni cyflenwi pe bai 'dim bargen' drwy ein porth Brexit a thrwy'r prosiect cydnerthedd busnesau a chig coch.

Hefyd, tynnodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit sylw at thema sy'n codi yn y tri adroddiad, sef cyfathrebu, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag asesiad y Pwyllgor o ba mor bwysig yw hyn. Yn ddiweddar, mae wedi datblygu Paratoi Cymru, sef ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr unigol i bobl Cymru am y camau y mae'n eu cymryd i baratoi ar gyfer effaith sylweddol Brexit 'dim bargen'.

## Dadl Llywodraeth Cymru ar 30 Ionawr

Ar 30 Ionawr, cyflwynodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru **gynnig i'w drafod** yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod hwnnw. Roedd y cynnig yn nodi bod y Cynulliad:

- Yn condemnio Llywodraeth y DU am fethu â chynnal negodiadau ystyrlon ynghylch y cytundeb i ymadael â'r UE â'r gweinyddiaethau datganoledig;





- Yn pwysleisio unwaith eto y byddai ymadael heb gytundeb yn drychinebus i Gymru ac y dylai Llywodraeth a Senedd y DU wneud popeth o fewn eu grym i atal sefyllfa o ymadael heb gytundeb, gan gynnwys ymestyn Erthygl 50;
- Yn credu, os nad oes modd i Senedd y DU uno i gefnogi cynnig gwahanol sy'n cynnwys cymryd rhan yn y farchnad sengl ac mewn undeb tollau, yna'r unig opsiwn sydd ar ôl yw dychwelyd y penderfyniad at y bobl; ac
- Yn credu y dylai Senedd y DU fynd ati, ar unwaith, i drafod mwy gyda'r gweinyddiaethau datganoledig am y materion hyn.

Wrth agor **y ddadl**, croesawodd Jeremy Miles, y Gweinidog Brexit y ffaith bod Tŷ'r Cyffredin wedi datgan yn glir y byddai Brexit 'dim bargen' yn ganlyniad annerbyniol i'r trafodaethau Brexit, a dywedodd fod hyn yn dangos bod y penderfyniadau a wnaed yn y Cynulliad yn llywio'r farn honno. Fodd bynnag, pwysleisiodd nad yw hyn yn golygu bod 'dim bargen' yn amhosibl, gan ddweud oni bai fod 27 aelod-wladwriaeth arall yr UE yn cytuno i ymestyn erthygl 50, ni fyddai modd osgoi 'dim bargen'. Galwodd felly am ymestyn Erthygl 50 ar unwaith.

Cyflwynwyd dau welliant i'r ddadl, gan UKIP a chan Blaid Cymru. Wrth gyflwyno gwelliant UKIP, dywedodd Neil Hamilton na fyddai diystyru 'dim bargen' yn parchu canlyniad y refferendwm, oherwydd mai 'dim bargen' oedd yr "arf cryfaf a oedd gan Brydain erioed". Dywedodd Adam Price mai'r "un dewis go iawn sydd ar ôl bellach yw naill ai Brexit 'dim bargen' neu bleidlais y bobl", ac roedd ei welliant ar ran Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i anfon dirprwyaeth seneddol ar ran y Cynulliad i gwrdd â chynrychiolwyr yn San Steffan er mwyn cyflwyno'r achos dros Gymru.

Ni chyflwynodd y Ceidwadwyr welliant i'r cynnig, ond dywedodd Darren Millar fod y Prif Weinidog wedi bod yn ymladd yn galed yn gyson i wneud yn siŵr bod gennym fargen, gan ychwanegu mai "dyna'r unig gytundeb sydd ar y bwrdd".

Ar ddiwedd y ddadl, gwrthodwyd gwelliant UKIP a chafodd gwelliant Plaid Cymru ei dynnu'n ôl, ac felly derbyniwyd y cynnig fel y'i cyflwynwyd.

# 4. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## Parodrwydd ar gyfer Brexit

Ar 28 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y DU **gyngor** i bobl sy'n ymweld â'r DU, yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn senario Brexit 'dim bargen'. Mae hyn yn cynnwys cynghori dinasyddion y DU sy'n byw neu'n gweithio yn yr UE i gofrestru i gael mynediad at ofal iechyd yn y wlad UE/AEE y maent yn byw ynddi.

Ar 30 Ionawr cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **ei set derfynol o gynlluniau wrth gefn** ar gyfer Brexit 'dim bargen'. Mae'r datganiad i'r wasg yn datgan bod yna "risg gynyddol" y gall y DU adael yr UE heb fargen. Mae'r set ddiweddaraf o fesurau wrth gefn ar gyfer senario 'dim bargen' ym maes rhaglen Erasmus+, alinio nawdd cymdeithasol a Chyllideb yr UE. Mae'r set hon yn dilyn cyhoeddi'r **cynlluniau wrth gefn ar gyfer pysgodfeydd yr UE** ar 23 Ionawr.

Mewn achos Brexit 'dim bargen', mae'r mesurau wrth gefn yn amcanu i sicrhau bod:

- myfyrwyr a hyfforddeion sy'n cymryd rhan yn rhaglen **Erasmus** dramor ar adeg ymadawiad y DU â'r UE yn gallu cwblhau eu hastudiaethau a pharhau i dderbyn yr arian neu'r grantiau perthnasol;
- **hawliau nawdd cymdeithasol** dinasyddion yr UE a arferodd eu hawl symudiad rhydd cyn y diwrnod ymadael yn cael eu diogelu;
- yr UE mewn sefyllfa i anrhydeddu ei ymrwymiadau a pharhau i wneud taliadau i fuddiolwyr y DU yn 2019 am gontractau a lofnodwyd a phenderfyniadau a wnaed cyn y diwrnod gadael, ar yr amod bod y DU yn anrhydeddu ei rwymedigaethau o dan y **Gyllideb yr UE yn 2019**, a'i bod yn destun gwiriadau archwilio a mesurau rheoli angenrheidiol;
- pysgotwyr a gweithredwyr o aelod-wladwriaethau'r UE yn gallu cael iawndal drwy **Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop** am amhariadau dros dro ar eu gweithgareddau pysgota; a
- yr UE mewn sefyllfa i roi i longau'r DU fynediad i ddyfroedd yr UE tan ddiwedd 2019, ar yr amod bod llongau'r UE hefyd yn cael mynediad cyfatebol i ddyfroedd y DU. Mae'r **cynnig** hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn symlach i awdurdodi llongau'r DU i gael pysgota yn nyfroedd yr UE a llongau'r UE i gael pysgota yn nyfroedd y DU.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 31 Ionawr, cyhoeddodd y Sefydliad Llywodraethu adroddiad **Brexit: two months to go**, sy'n edrych ar gynnydd Llywodraeth y DU wrth baratoi i adael yr UE heb fargen. O'r 11 maes yr edrychodd arnynt, canfuwyd bod Llywodraeth y DU yn gwbl barod ar gyfer dim ond un o'r rhain. Nododd yr adroddiad:

> The problems facing the [UK] Government in being ready for a no deal Brexit are largely a reflection of the sheer scale and complexity of the task. But the Government's approach to no deal preparations – being unwilling to talk publicly about plans and developing an adversarial relationship with Parliament – has caused further problems.

Dangosodd yr adroddiad fod wyth maes na fydd Llywodraeth y DU yn gallu lliniaru'n llawn yn erbyn effeithiau negyddol sylweddol senario dim bargen yn 2019. Dyma'r wyth maes:

- Y ffin: Paratoi ar gyfer cyfundrefn tollau a gofynion rheoliadol newydd.
- Amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd: Gweithredu systemau newydd ar gyfer rheoli amaethyddiaeth a physgodfeydd, gan sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn cael eu cynnal.
- Iechyd: Creu cyfundrefnau profi newydd a sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn cael eu cynnal.
- Gwasanaethau: Paratoi ar gyfer newidiadau i gyfundrefnau rheoleiddio a thelerau mynediad i farchnad yr UE.
- Ynni a'r amgylchedd: Creu trefn diogelu niwclear newydd, gan ddisodli swyddogaethau eraill a gynhelir ar hyn o bryd gan asiantaethau'r UE.
- Cystadleuaeth, treth a data: Sicrhau penderfyniad "digonolrwydd" i ganiatáu i lif data barhau, gan gynyddu maint yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gweithredu cyfundrefnau treth newydd a chreu polisi masnach newydd.
- Y gyfraith a chyfiawnder: Canfod opsiynau newydd i offerynnau'r UE a chaniatáu i gydweithrediaeth y gyfraith gael ei orfodi.
- Cytundebau rhyngwladol: Parhau â chytundebau presennol yr UE â gwledydd eraill ledled y byd

## Cytuniadau rhyngwladol

Yn y DU, **rôl weithredol yw negodi a chadarnhau cytuniadau rhyngwladol,** hynny yw rôl a wneir gan Lywodraeth y DU o dan yr Uchelfraint Frenhinol. Dim ond yn ddiweddar y mae Senedd y DU wedi cael yr hawl ffurfiol i gadarnhau rhai cytuniadau rhyngwladol o dan **Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.**

Mae Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi ill dau yn ddiweddar wedi nodi cyfyngiadau'r prosesau craffu seneddol ar gyfer cytuniadau rhyngwladol. Mae'r Pwyllgor Cyfansoddiadol yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi bod yn cynnal ymchwiliad i'r **broses graffu seneddol ar gytuniadau**. Rhoddodd Mick Antoniw AC dystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn dystiolaeth derfynol ar 30 Ionawr gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Roedd rhai o'r cwestiynau allweddol **ar gyfer y sesiwn** yn cynnwys:

- Beth yw goblygiadau Brexit i'r gwaith o wneud cytuniadau yn y dyfodol o ran eu natur a'u maint?
- A yw'n iawn bod y cytuniadau'n destun cryn dipyn yn llai o waith craffu a chymeradwyaeth na deddfwriaeth sylfaenol ac offerynnau statudol cadarnhaol?
- A ddylai rhai cytuniadau neu bob un ohonynt fod angen cymeradwyaeth benodol gan Dŷ'r Cyffredin?
- Pa effaith a geir ar weithgarwch y Llywodraeth o ran gwneud cytuniadau os byddai cynnydd yn y gwaith ymgysylltu a chraffu seneddol?
- Yn ei datganiad i Dŷ'r Cyffredin ddydd Llun 21 Ionawr, dywedodd Prif Weinidog y DU y bydd ymgynghoriad â Senedd y DU ynghylch negodi mandad ar gyfer perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol?
- Sut y dylai'r cyrff gweithredol a'r deddfwrfeydd datganoledig gyfrannu at y gwaith o wneud cytuniadau a chraffu? Sut ydych chi'n gweld Confensiwn Sewel yn cymhwyso i'r cytuniadau?

## Brexit: y camau nesaf

Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd Pwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad, **Response to the vote on the Withdrawal Agreement and Political Declaration: Assessing the Options**. Roedd hyn yn dilyn yr **adroddiad interim** a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 16 Ionawr yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal cyfres o bleidleisiau dangosol ar wahanol opsiynau o ran sut i fwrw ymlaen â phroses Brexit. Dyma'r pedwar opsiwn a nodwyd yn yr adroddiad:



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

1. Cynnal pleidlais arall yn Senedd y DU ar y Cytundeb Ymadael drafft a'r Fframwaith ar gyfer Berthynas yn y Dyfodol.
2. Ymadael â'r UE heb fargen ar 29 Mawrth 2019.
3. Ailnegodi'r fargen i geisio cael:
   a. newidiadau i destun y Cytundeb Ymadael o ran trefniadau'r ateb wrth gefn;
   b. bargen debyg i un Canada; neu
   c. ymuno â'r EEA a pharhau mewn undeb tollau neu ryw fath o amrywiad ar hyn.
4. Cynnal ail refferendwm gydag opsiwn i ddewis gwahanol fathau o fargeinion Brexit neu aros yn aelod o'r UE.

Mae adroddiad llawn y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr yn cynnig asesiad o'r gwahanol opsiynau a gyflwynwyd fel opsiynau gwahanol i fargen Brexit y Prif Weinidog.

O ran yr opsiwn o gael Brexit heb fargen, dywed y Pwyllgor, ymhlith pethau eraill:

- Mae diffyg amser a thryloywder wedi amharu ar baratoadau Llywodraeth y DU;
- Mae maint y dasg ynghyd â'r amserlen fer i roi prosesau a systemau newydd ar waith ac i baratoi'r llyfr statud yn peri "risgiau sylweddol";
- Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch paraodrwydd a chapasiti busnesau ar gyfer senario o'r fath;
- Gallai symud i fasnachu â'r UE ar delerau Sefydliad Masnach y Byd gael "effaith sylweddol iawn" ar elfen gystadleuol rhai allforion o'r DU, yn enwedig allforion amaethyddol, o ganlyniad i gyfraddau tariff uwch a rhwystrau nad ydynt yn dariffau gan gynnwys gwiriadau safonau cynnyrch a gwiriadau ar gyfer rheolau tarddiad. Fodd bynnag, byddai gosod polisi di-dariff â phartneriaid o Sefydliad Masnach y Byd yn golygu na allai'r DU gynnig gostyngiadau tariff wrth negodi masnach a byddai gan y DU lai o ddylanwad mewn cytundebau masnach yn y dyfodol;
- Gellir wynebu "amhariad mawr" ar ffiniau'r DU;
- Efallai y bydd yn bosibl cynnal ffin agored yn Iwerddon;
- Gallai'r DU golli trefniadau presennol ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth ym maes yr heddlu a gorfodaeth y gyfraith;
- Gall dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE wynebu ansicrwydd ynghylch eu statws gyfreithiol a pharhad yr hawliau sydd ganddynt ar hyn o bryd o ganlyniad i symudiad rhydd.

O ran ailnegodi'r fargen Brexit bresennol, dywedodd y Pwyllgor;

- Byddai'n gofyn am unfrydedd gan 27 aelod-wladwriaeth yr UE;
- Os byddai Tŷ'r Cyffredin yn penderfynu derbyn y Cytundeb Ymadael ond diwygio'r Datganiad Gwleidyddol mewn ffordd sy'n nodi'n glir sefyllfa derfynol y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, mae'n anochel y bydd cyfaddawdu rhwng lefel ymreolaeth reoleiddiol y DU a lefel mynediad at fasnach a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol mewn amryw feysydd.
- Ni fyddai cytundeb masnach debyg i un Canada â'r UE yn galluogi parhad masnach di-dor, a byddai trefniant o'r fath yn golygu y byddai Gogledd Iwerddon yn masnachu o dan reolau gwahanol i weddill y DU;
- Byddai cytundeb Norwy+ yn galluogi masnach di-dor ar yr amod bod y DU yn parhau i gadw at reolau'r UE ond yn ogystal â dilyn rheolau'r Farchnad Sengl, byddai angen i'r DU fod mewn undeb tollau â'r UE.

O ran ail refferendwm, dywedodd y Pwyllgor y byddai angen i'r DU wneud cais i Gyngor Ewrop i gael ymestyn cyfnod Erthygl 50. Yn ôl y Pwyllgor:

> There have been indications that the EU27 would look favourably on a request for an extension if it was to allow time for the ratification process to be completed, for a second referendum, or for a general election. The EU27 appear unlikely to look favourably on a request for an extension to allow more time for negotiations, although it has been suggested that there would be a greater chance of allowing some further negotiations on the Political Declaration. If the EU were to agree an extension, it is likely to be time limited rather than open ended.

Byddai hefyd yn bosibl i'r DU ddiddymu Erthygl 50 yn unochrog, ond byddai'n rhaid i hynny fod yn "glir ac yn ddiamod".